Teleofal Caerdydd
Gwasanaeth Ymateb a Wardeiniaid

Synhwyrydd Tymheredd Eithafol

Beth yw'r Synhwyrydd Tymheredd Eithafol?

Mae'r synhwyrydd tymheredd eithafol yn rhoi gwybod am dymheredd

eithafol gartref a allai arwain at amodau byw afiach. Mae hefyd yn rhoi rhybudd am beryglon tân, oherwydd, yn wahanol i synwyryddion mwg eraill, gellir ei roi mewn amgylchedd myglyd, a bydd yn rhybuddio os yw tymheredd yr ystafell yn gostwng i lefelau a all arwain at bibellau'n chwythu.

Beth yw Manteision Defnyddio Synhwyrydd Tymheredd Eithafol?

CARDIFF
CAERDYDD

- Mae’n defnyddio’r amlder Ewropeaidd sydd wedi ei bennu ar gyfer larymau cymdeithasol, sef 869MHz – mae hyn yn sicrhau sicrwydd a pharhad
- Technoleg radio ddiwifr ar gyfer hyblygrwydd y dyfeisiau
- Batri sy’n parhau am ddwy flynedd, gan gynnwys rhybudd batri isel awtomatig – mae hyn yn sicrhau ei fod yn gweithio orau bosib bob tro
- Larwm tymheredd isel – gwarchod rhag tymheredd dan rewbwynt
- Larwm tymheredd uchel – gwarchod rhag peryglon achosi tân
- Galw larwm yn sydyn - diogelu rhag cynnydd mewn tymheredd a allai fod yn beryglus

Sut mae’r Synhwyrydd Tymheredd Eithafol yn gweithio?

Mae’r synhwyrydd tymheredd eithafol yn anfon signal larwm i unedau cartref Lifeline ac i systemau eraill sy’n cyd-fynd â system teleofal Tunstall er mwyn rhoi rhybudd cynnar o dymheredd a allai fod yn beryglus. Maent wedi eu dylunio i adnabod tri math o dymheredd: uchel, isel a chodi’n sydyn, er mwyn

anfon negeseuon penodol fel bod modd gweithredu'n addas.

- Mae'r larwm tymheredd uchel yn seinio os yw'r tymheredd yn codi'n uwch na'r tymheredd uchaf am dros 2 funud - **42 Gradd Celsius**
- Mae'r larwm tymheredd isel yn seinio os yw'r tymheredd yn gostwng dan y tymheredd isel am dros 20 munud.

  2 Radd Celsius
- Mae'r larwm hefyd yn galw os yw tymheredd yr ystafell yn codi o 1ºC y funud dros gyfnod o 30 munud neu 3ºC y funud dros gyfnod o bum munud.

Teleofal Caerdydd
Gwasanaeth Ymateb a Wardeiniaid

Ar gyfer pwy mae'r Synhwyrydd Tymheredd

Eithafol?

Gellir defnyddio’r Synhwyrydd Tymheredd Eithafol gydag unrhyw uned larwm Lifeline gyfredol sydd gennym a hefyd y Galwr CareAssist.

Cynhyrchion Cysylltiedig...